EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

**COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD AR BYMTHEG AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

**DYDDIAD: 20 Mawrth 2025**

**LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA**

**Yn bresennol:**
**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Bethan Thomas | David Williams |
| Kelly Edwards | Eithne Hughes |
| Nicola Stubbins | Geraint Williams |
| Dave Edwards | Gwawr Taylor |
| Jane Jenkins | Sue Walker |
| Theresa Evans-Rickards | Kathryn Robson |
| Karl Jones | |

**Ymddiheuriadau:**
Rosemary Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Hayden Llewellyn | Prif Weithredwr |
| Lisa Winstone | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Bethan Stacey | Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi |
| David Browne | Cyfarwyddwr Rheoleiddio |
| Amy Pope | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol *(cofnodion)* |
| Angela Guarno | Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr (*arsylwi*) |

**1. Croeso a materion rhagarweiniol**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau a swyddogion i bedwerydd cyfarfod ar bymtheg ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Croesawodd hi'r cyfieithydd ar y pryd ac arsylwyr o CGA. Croesawodd y Cadeirydd y ffotograffydd a oedd yn bresennol ac esboniodd wrth yr aelodau y byddai hi'n tynnu ffotograffau o'r Cyngor wrth eu gwaith, i'w defnyddio yn nogfennau a chyfryngau corfforaethol CGA. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Jones.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn methu dod i'r cyfarfod yn unol â'r bwriad roedd wedi cael ei gwahodd i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am lenwi eu ffurflenni adolygu cyn y cyfarfodydd adolygu blynyddol y byddent yn cael eu cynnal yr wythnos ganlynol.

1.4 Atgoffwyd aelodau y bydd diwrnod hyfforddiant blynyddol yr aelodau yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn swyddfeydd CGA ar 10 Ebrill 2025; byddai'r sesiwn yn digwydd wyneb yn wyneb ac roedd presenoldeb yn orfodol. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Cyngor y byddai'r agenda'n cynnwys cyflwyniadau gan swyddogion, aelodau'r Cyngor a siaradwyr

allanol, gan gynnwys Cadeirydd y Sefydliad Rheoleiddio a Phrif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban. Bydd cinio i'r aelodau yn cael ei gynnal ar 9 Ebrill 2025, cyn y diwrnod hyfforddiant, a byddai swyddogion yn darparu manylion pellach, maes o law.

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Datganodd Kelly Edwards, Geraint Williams a Kathryn Robson fudd yn eitem 13 ar yr agenda, yn rhinwedd eu rolau proffesiynol yn gweithio yn y sector AB.

**3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n parhau i gyfarfod yn wythnosol â'r Prif Weithredwr. Yn ddiweddar, roeddent wedi mynd i gyfarfodydd gydag arweinwyr gwleidyddol, swyddogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, arweinwyr haen ganol a swyddogion undebau llafur. Nododd mai nodwedd gyson o drafodaethau oedd ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd a diogelu, a bod hyn yn amlygu natur ganolog a phwysigrwydd CGA o fewn sector addysg Cymru. Croesawodd y cyfle i ddylanwadau ar randdeiliaid a gwrando ar adborth ganddynt.

**4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 14 Tachwedd 2024**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 14 Tachwedd 2024. Gofynnodd hi i'r aelodau gymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o drafodaethau.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

**5. Cael gwybod am unrhyw faterion y mae'r aelodau'n dymuno eu codi yn gysylltiedig â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'**

5.1 Ni roddwyd gwybod am unrhyw faterion.

**6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 21 Ionawr 2025**

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod yn nes ymlaen ar yr agenda.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 21 Ionawr 2025**

7.1 Cyflwynodd David Williams *(Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio)* y cofnodion a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

7.2 Diolchodd Nicola Stubbins (*Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio*) iddo am gadeirio'r cyfarfod yn ei habsenoldeb.

7.3 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 23 Ionawr 2025**

8.1 Cyflwynodd Gwawr Taylor *(Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu)* y cofnodion a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

8.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**9. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 02/25**

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw mewn man arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Rhoddwyd gwybod bod llythyr y Cynnig Grant wedi cael ei drafod gyda swyddogion yn gynt y diwrnod hwnnw ac roedd swyddogion yn gobeithio cael cytundeb arno erbyn 1 Ebrill 2025.

9.3 Gan gyfeirio at baragraff 5, yn sgil yr adolygiad haen ganol, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod y byddai'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL) yn cau ac y byddai ei gwaith yn cael ei gyflawni gan gorff cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu proffesiynol. Byddai'r canlyniadau i'r consortia rhanbarthol yn amrywio yn dibynnu ar benderfyniadau a wnaed ym mhob rhanbarth, ac y byddai'r rhain yn dibynnu ar benderfyniadau a wnaed yn ganolog yn nhîm gwella addysg Llywodraeth Cymru.

9.4 Cyfeiriwyd aelodau at baragraff 7 ac esboniodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i recriwtio a chadw athrawon a staff cymorth. Roedd swyddogion CGA yn datblygu ymateb a byddai aelodau'n cael cyfle i roi sylwadau ac adborth arno cyn ei gyflwyno.

9.5 Gan gyfeirio at baragraff 23, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod bod darlith flynyddol CGA, 'Siarad yn Broffesiynol', wedi'i chynnal ym mis Ionawr gyda'r nifer uchaf eto o fynychwyr. Rhoddwyd gwybod i aelodau bod disgwyl hefyd i Ddosbarth Meistr CGA, a oedd ar ddod, ysgogi llawer o ddiddordeb.

9.6 Trafododd y Cyngor ymgysylltu â rhanddeiliaid a heriau cynnal ymgysylltu gweithgar gyda 13 o gategorïau, gan sicrhau bod partïon perthnasol yn ymwybodol o waith CGA a'r gofynion cyfreithiol yr oeddent yn effeithio arnynt. Adroddwyd bod y Cyfarwyddwyr a'r Rheolwr Cymwysterau a Chofrestru wedi treulio llawer o amser yn gweithio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bod hyn yn cryfhau'r ddealltwriaeth o CGA a'i hygrededd, yn enwedig i gyflogwyr. Esboniodd y Prif Weithredwr fod y tîm Polisi a Chynllunio yn monitro trafodaethau perthnasol pwyllgorau'r Senedd; nodwyd cynnydd mewn cyfeiriadau at CGA mewn trafodaethau gwleidyddol ac roedd CGA yn derbyn nifer gynyddol o geisiadau allanol am ddata, a oedd yn arddangos effeithiolrwydd ei waith ymgysylltu.

9.7 Nid oedd gan aelodau sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**10. Cynlluniau Strategol, Gweithredol a chynlluniau cysylltiedig drafft CGA — CGA 03/25**

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gyfres o gynlluniau drafft a nododd ddiolch yn arbennig i Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) a thîm Polisi a Chynllunio CGA am y cynlluniau manwl. Rhoddwyd gwybod i aelodau fod pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Gweithredol wedi cael eu cynnwys yn y dogfennau a oedd nawr yn cael eu cyflwyno gyda chostiadau i'r Cyngor eu cymeradwyo.

10.2 Cyfeiriodd Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yr aelodau at y gyllideb ddiffyg o £1.1m a ragwelwyd ar gyfer 2025-26, a oedd yn sylweddol uwch na'r flwyddyn flaenorol. Y prif reswm dros hyn oedd yr ansicrwydd ynghylch ffioedd – byddai cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i gynnal y ffioedd ar £45/£15 yn arwain at ostyngiad mewn incwm o ffioedd cofrestru. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynghori CGA i gyllidebu dyfarniad cyflog o 3% i staff, ac roedd costau rhedeg cyffredinol wedi cynyddu oherwydd chwyddiant. Nododd Lisa Winstone fod nifer y gwrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer y neilltuwyd cyllideb ar eu cyfer a'r amcan o nifer y cofrestreion yr un fath ag yr oeddent y flwyddyn flaenorol.

10.3 Gan gyfeirio at baragraffau 7 i 9, rhoddodd Lisa Winstone wybod i'r aelodau bod rhagolwg y byddai'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn gostwng i £3.3m. Cynigiodd swyddogion fod £300k yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i Gronfa Llety Wrth Gefn, wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio naill ai ar gostau dadfeiliad neu gynnydd yn y rhent pan fyddai prydles y swyddfeydd yn Eastgate House yn dod i ben yn 2028.

10.4 Holodd un aelod am y cyfyngiad ar nifer y gwrandawiadau y neilltuwyd arian yn y gyllideb ar eu cyfer, a ph'un a allai hyn effeithio ar les unigol a chyllid ysgol pe bai achos yn gael ei gynnal dros gyfnod hir. Esboniodd swyddogion nad oedd y ffigur yn y gyllideb yn gyfyngiad nac yn darged, ond yn rhagamcaniad gwybodus ac y gallai nifer fwy o wrandawiadau ddigwydd yn amodol ar allu'r staff; nodont nad oedd gan CGA ôl-groniad o waith achos.

10.5 Gwnaeth aelod arall sylw ynghylch p'un a fyddai diffyg yn 2027-28. Cytunodd swyddogion bod hyn yn debygol gan na fyddai ffioedd ar y lefel bresennol yn talu costau rhedeg; gobeithio y byddai penderfyniad pragmatig yn deillio o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a fyddai'n diogelu lefelau ffioedd yn y dyfodol.

10.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r gyfres o gynlluniau drafft a'r cynnig i drosglwyddo cyllideb o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i Gronfa Llety Wrth Gefn.

**11. Polisi Drafft ar Gronfeydd Wrth Gefn — CGA 04/25**

11.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn, a gyflwynodd safiad CGA am ei Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn ffurfiol. Cyflwynwyd y papur i'r Pwyllgorau Gweithredol ac Archwilio a Chraffu ym mis Ionawr. Roedd y pwyllgorau wedi argymell y polisi ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo.

11.2 Nododd y dylai lefel argymelledig CGA ar gyfer Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn fod yn £2 filiwn. Roedd swyddogion wedi cyfeirio at gyrff a rheoleiddwyr eraill ac roeddent yn fodlon bod y lefel hon yn deg ac yn gymesur i sefydliad o faint CGA.

11.3 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn y polisi ar gronfeydd wrth gefn.

**12. Uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA** **CGA 05/25**

12.1 Cyflwynodd David Browne (*Cyfarwyddwr Rheoleiddio*) y papur hwn, a oedd yn amlinellu cynnydd hyd yn hyn wrth uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA.

12.2 Gan gyfeirio at baragraffau 12 a 13, adroddodd David Browne fod Cofrestr Risg CGA wedi'i diweddaru i adlewyrchu pryderon am yr oedi mewn profion derbynioldeb defnyddwyr. Roedd swyddogion yn aros am ail gynllun prosiect wedi'i ddiweddaru gan reolwyr y prosiect yn ClearCourse. Roeddent wedi cyfarfod ym mis Ionawr â chyfarwyddwyr ClearCourse a oedd wedi rhoi sicrwydd y byddent yn cyflawni'r prosiect uwchraddio cofrestru, er gwaethaf y problemau profi, erbyn y terfyn ym mis Mehefin.

12.3 Gofynnodd un aelod sut roedd CGA yn sicrhau bod y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg amgen wedi cofrestru. Esboniodd y Prif Weithredwr mai'r gofyniad cyfreithiol oedd bod unrhyw un sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yn cofrestru os ydynt yn darparu neu'n cynorthwyo â darparu addysg – fodd bynnag, roedd lleoliadau addysg fwyfwy yn gwthio darpariaeth allan i drydydd partïon. Roedd gan CGA weithdrefnau cadarn ar gyfer diffyg cydymffurfio ac roeddem yn buddsoddi amser mewn ymgysylltu ag arweinwyr Adnoddau Dynol mewn awdurdodau lleol a chyda phenaethiaid. Nododd y Prif Weithredwr mai'r maes hwn oedd rhan anoddaf cofrestru ac, ym mhob achos, roedd yn rhaid archwilio'r amgylchiadau unigol.

12.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad ar gynnydd.

**13. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu** **CGA 06/25**

13.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn, a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â Chofrestru a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

13.2 Amlygwyd i aelodau fod y gyllideb a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer incwm ffioedd wedi'i bodloni a bod y broses o gasglu ffioedd ar gyfer 2025/26 yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad. Gan gyfeirio at baragraff 3, roedd swyddogion yn dilyn gweithdrefnau cadarn ar ddiffyg cydymffurfio o ran nifer yr ymarferwyr a oedd yn gweithio ond nad oeddent yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Cyfeiriwyd aelodau at baragraff 9 a chawsant wybod bod cyfnod maddeuant y gweithwyr cymorth ieuenctid hynny sydd heb ddarparu manylion am gymwysterau gofynnol eto yn dod i ben a chawsant wybod na fyddai 81 unigolyn yn gallu adnewyddu eu cofrestriad gan nad oedd ganddynt y cymhwyster lefel 3 sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth.

13.3 Gan gyfeirio at baragraff 11 a'r cymwysterau gofynnol ar gyfer athrawon AB, esboniodd David Browne fod swyddogion yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn parhau i wneud cynnydd yn y sector a chyda Colegau Cymru. Esboniodd y Prif Weithredwr fod swyddogion yn ceisio cadarnhau ar ba unigolion yr oedd angen cymwysterau penodol, gan fod yr atodlen yn anghyflawn ac roedd angen i Lywodraeth Cymru ei diwygio ymhellach. Roedd CGA yn

ceisio gweithio trwy’r senarios gyda’r sector a dod i gytundeb ar y cyd cyn i’r atodlen gael ei chyfleu’n ehangach.

13.4 Diolchodd un aelod i swyddogion am ddod i’w goleg a rhoddodd adborth cadarnhaol gan staff. Nododd bwysigrwydd cofrestreion yn deall bod yr atodlen wedi’i datblygu gan Lywodraeth Cymru, nid CGA.

13.5 Mynegodd aelod arall bryder am yr atodlen a nododd y byddai’r bylchau mawr yn y rhestr o gymwysterau yn cael effaith arwyddocaol ar rai staff sy’n gweithio yn y sector AB sy’n gymwys, ond nad oedd eu cymwysterau yn ymddangos yn yr atodlen. Nododd y byddai cymhlethdodau sy’n codi yn effeithio ar yr amserlenni disgwyliedig i gyflogwyr.

13.6 Gan gyfeirio at niferoedd cofrestru, holodd un aelod p’un a oedd y niferoedd yn dangos unrhyw dueddiadau. Ymatebodd swyddogion ei bod hi’n rhy gynnar dangos tuedd ond eu bod yn monitro hyn. Nododd y Prif Weithredwr fod swyddogion yn dechrau cyfleu arwyddion cynnar o broblemau cadw a throsiant gyda gwleidyddion, gan fod hyn yn fater polisi. Mynegodd aelodau eu profiadau o broblemau cadw ar draws eu sectorau. Atgoffodd y Cadeirydd aelodau am ymateb drafft CGA i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i recriwtio a chadw, a’u hannog i ddarparu gwybodaeth i gyfrannu at yr ymateb pan fyddai’n cael ei rannu gyda’r Cyngor at ddiben ymgynghori arno.

13.7 Trafododd aelodau’r rhesymau posibl dros ddefnydd asiantaethau a chyflogwyr o unigolion â SAC fel cynorthwywyr addysgu a goruchwylwyr cyflenwi. Nodwyd y bu hyn yn bwynt trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, a bod aelodau’r pwyllgor hwn wedi nodi problemau cyllidebau cyfyngedig, tâl, datblygiad, iechyd a lles ar draws amrywiol grwpiau cofrestreion – y gallai pob un ohonynt gael effaith negyddol ar amgylcheddau dysgu. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod swyddogion CGA yn dadansoddi data ac yn datblygu gwybodaeth yn y maes hwn. Ychwanegodd Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) fod y drafodaeth hon yn berthnasol i eitem 16 ar yr agenda; roedd yn bwnc pwysig i’w ddatblygu ac i roi cyngor arno o fewn y cyfyngiadau presennol.

13.8 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad ar gynnydd.

**14. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 07/25**

14.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig. Dywedodd y byddai nifer gwirioneddol y gweithgareddau a gwblheir yn 2024-25 yn bodloni nifer y gweithgareddau yn y gyllideb a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Rhoddodd wybod i’r Cyngor bod yr estyniad blwyddyn i gontract y swyddog cyflwyno wedi’i weithredu, ac y byddent yn ymgymryd â phroses dendro lawn ar gyfer contract gwasanaethau cyfreithiol nesaf y swyddog cyflwyno yng ngwanwyn 2026. Nododd fod swyddogion yn gweld cynnydd mewn cymhlethdod achosion, a oedd yn cynyddu risg her yn yr Uchel Lys a phrotocolau cyn-gweithredu; roedd hyn wedi arwain at fwy o angen am gyngor cyfreithiol. Gan gyfeirio at baragraffau 20 a 21, adroddodd David Browne fod CGA wrthi’n cynnal ymgynghoriad statudol ar hyn o bryd ar yr adolygiad tair blynedd o’r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Byddai’r Cod drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

14.3 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**15. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 08/25**

15.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd ddiweddariad i aelodau ar gynnydd ynghylch rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru. Cyfeiriwyd aelodau at baragraffau 3 a 4 a rhoddwyd gwybod iddynt fod rhaglen TAR newydd i gyflogeion yn yr ysgol wedi cael ei hachredu ym Mhartneriaeth Caerdydd, gan osod un amod. Roedd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn y bartneriaeth i sicrhau bod hwn ar waith cyn bod y cwrs yn dechrau ym Mehefin 2025.

15.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod swyddogion wedi dod i wybod am y posibilrwydd o ddiffyg cydymffurfio mewn dwy raglen o ganlyniad i lythyr lles/diogelu gan Estyn yn sgil arolygiad. Byddai swyddogion yn ysgrifennu'n ffurfiol at y partneriaethau dan sylw yn ystod yr wythnosau nesaf; deallwyd eu bod eisoes wedi cymryd camau sylweddol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Estyn.

15.3 Gan dynnu sylw aelodau at baragraff 10, esboniodd Bethan Stacey fod Estyn wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar drefniadau arolygu AGA. Roedd swyddogion wedi gobeithio trafod yr ymgynghoriad gydag Estyn cyn ei gyhoeddi, ac y byddai'n mynd i'r afael â'r rhyngberthynas rhwng achredu ac arolygu, ond nid oedd y naill na'r llall wedi digwydd. Roedd CGA wedi paratoi ymateb drafft trylwyr a fyddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau at ddiben ymgynghori cyn y dyddiad cau, sef 28 Mawrth. Mynegodd aelodau siom yn y diffyg ymgysylltu â CGA cyn cyhoeddi. Esboniodd Bethan Stacey fod tîm AGA CGA yn mynychu sesiynau adborth Estyn ar hyn o bryd, ond nad oedd ganddynt rôl mewn arolygiadau. I ymateb i awgrym un aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r materion hyn yn cael eu codi yn ei gyfarfod nesaf â Medr, sy'n gyfrifol am gyfeirio arolygiadau mewn Addysg Uwch.

15.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**16. Swyddogaeth Statudol CGA i Ddarparu Cyngor CGA 09/25**

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a amlinellodd ddull o alluogi CGA i ymgymryd â'i swyddogaeth statudol, sef rhoi cyngor yn effeithiol. Gwahoddwyd aelodau i drafod ac, os ystyrid hynny'n briodol, cytuno ar y dull a amlinellwyd yn y papur.

16.2 Nododd Bethan Stacey fod y pwnc hwn wedi'i drafod eisoes o dan eitem 13 ar yr agenda. Roedd gan CGA swyddogaeth statudol i ddatblygu a darparu cyngor, fodd bynnag, roedd yn ofynnol iddo hysbysu Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi unrhyw gyngor. Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd CGA yn gallu cyhoeddi unrhyw gyngor heb ganiatâd a, hyd yn hyn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddo ddarparu unrhyw gyngor.

16.3 Hysbyswyd aelodau fod adborth ar yr ymgynghoriad gan aelodau'r Cyngor a staff wedi'i gynnwys yn y dull. Roedd y dull yn cynnig bod swyddogion yn creu rhestr o bynciau i roi cyngor arnynt ac amserlen gwblhau.

16.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r dull a amlinellwyd.

**17 - 21. Eitem(au) gwybodaeth**

Cafodd aelodau bapurau “er gwybodaeth” ar:

- **Adolygiad chwarterol, 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2024** **(CGA 10/25)**
- **Sefydlu Statudol a’r Pasbort Dysgu Proffesiynol** **(CGA 11/25)**
- **Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysg** **(CGA 12/25)**
- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC)** **(CGA 13/25)**
- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol** **(CGA 14/25)**

**22. Unrhyw fater arall**

22.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben.

**Yna, symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.**